OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 266

# Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Penodi Cynrychiolydd Person Perthnasol) (Cymru) 2009

## RHAN 3

Penodi — cyffredinol

### Y weithdrefn benodi

**4.**—(1) Mae dethol person i'w benodi yn gynrychiolydd i ddigwydd yn unol â Rhan 4.

(2) Mae penodi person yn gynrychiolydd i ddigwydd yn unol â Rhan 5.

### Cychwyn y weithdrefn benodi

**5.** Rhaid i'r weithdrefn ar gyfer penodi cynrychiolydd ddechrau—

(a) cyn gynted ag y bydd asesydd lles pennaf wedi ei ddethol gan y corff goruchwylio(**1**) at ddibenion cais am awdurdodiad safonol(**2**); neu

(b) cyn gynted ag y bo penodiad cynrychiolydd person perthnasol yn terfynu, neu i'w derfynu yn unol â rheoliad 14, a bod y person perthnasol yn parhau i fod yn ddarostyngedig i awdurdodiad safonol.

### Cymhwystra person i fod yn gynrychiolydd

**6.**—(1) Mae person yn gymwys i'w benodi yn gynrychiolydd—

(a) os yw'n 18 oed neu drosodd;

(b) os yw'n abl i gadw mewn cysylltiad â'r person perthnasol(**3**);

(c) onid yw wedi'i rwystro gan afiechyd rhag cyflawni swyddogaeth cynrychiolydd;

(ch) os yw'n fodlon bod yn gynrychiolydd i'r person perthnasol;

(d) os nad oes ganddo fuddiant ariannol yn y cartref gofal(**4**) neu yn yr ysbyty annibynnol(**5**) lle mae'r person perthnasol yn cael ei gadw, neu lle mae i'w gadw;

(dd) onid yw'n berthynas i berson sydd â buddiant ariannol yn y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol lle mae'r person perthnasol yn cael ei gadw, neu lle mae i'w gadw;

(e) onid yw'n darparu gwasanaethau i'r cartref gofal lle mae'r person perthnasol yn cael ei gadw, neu lle mae i'w gadw, neu onid yw'n cael ei gyflogi i weithio yno;

(**1**) Penderfynir p'un yw'r corff goruchwylio yn unol â pharagraffau 128, 180, 181 a 182 o Atodlen A1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ("y Ddeddf").
(**2**) Caiff "*standard authorisation*" ei ddiffinio ym mharagraff 8 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.
(**3**) Caiff "*relevant person*" ei ddiffinio ym mharagraff 7 o Atodlen A1 i'r Ddeddf.
(**4**) Caiff "*care home*" ei ddiffinio ym mharagraff 178 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.
(**5**) Diffinnir "*independent hospital*" ym mharagraff 175(3) o Atodlen A1 i'r Ddeddf.

(f) onid yw'n cael ei gyflogi i weithio yn yr ysbyty(**6**) lle mae'r person perthnasol yn cael ei gadw, neu lle mae i'w gadw, mewn swyddogaeth sy'n gysylltiedig ag achos y person perthnasol, neu a allai fod yn gysylltiedig â'r achos hwnnw; ac

(ff) onid yw'n cael ei gyflogi i weithio ar gorff goruchwylio'r person perthnasol mewn swyddogaeth sy'n gysylltiedig ag achos y person perthnasol, neu a allai fod yn gysylltiedig â'r achos hwnnw.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "perthynas" ("*relative*") yw:

(a) tad, mam, llystad, llysfam, mab, merch, llysfab, llysferch, nain (mam-gu), taid (tad-cu), ŵyr neu wyres y person hwnnw, neu o briod, cyn briod, partner sifil neu gyn bartner sifil y person hwnnw; neu

(b) brawd, chwaer, ewythr, modryb, nith, nai, neu gefnder cyfan (p'un ai o waed cyfan neu hanner gwaed neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil) y person hwnnw neu briod, cyn briod, partner sifil neu gyn bartner sifil y person hwnnw.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) mae "priod" ("*spouse*") neu "partner sifil" ("*civil partner*") yn cynnwys person nad yw'n briod â pherson nac mewn partneriaeth sifil â pherson ond sy'n byw gyda'r person hwnnw fel petai mewn perthynas o'r fath, a

(b) mae gan berson fuddiant ariannol mewn cartref gofal neu mewn ysbyty annibynnol os yw'r person hwnnw'n bartner, yn gyfarwyddwr, yn ddeiliad swydd arall neu'n brif gyfranddaliwr y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol sydd wedi gwneud cais am awdurdodiad safonol.

(c) ystyr "prif gyfranddaliwr" ("*major shareholder*") yw—

(i) unrhyw berson sy'n dal degfed ran neu fwy o'r cyfranddaliadau sydd wedi eu dyroddi yn y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol, os yw'r cartref gofal neu'r ysbyty yn gwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, a

(ii) ym mhob achos arall, unrhyw un o berchnogion y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol.

(**6**) Caiff "*ysbyty*" ei ddiffinio ym mharagraff 175(1) o Atodlen A1 i'r Ddeddf.